



Adroddiad Ymgynghori (Gorffennaf 2020)

Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a Heddlu Gwent

Amcanion Cydraddoldeb Strategol 2020-2024

1. Cyflwyniad

Cyhoeddodd Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau (Swyddfa'r Comisiynydd) a Heddlu Gwent eu Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar y Cyd (Cynllun Cydraddoldeb) cyntaf yn 2016 er mwyn cadarnhau eu dyletswyddau fel awdurdodau cyhoeddus fel yr amlinellir yn y Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Erbyn mis Medi 2020, bydd Cynllun Cydraddoldeb newydd yn cael ei gyhoeddi yn cynnwys amcanion sydd wedi cael eu pennu yn dilyn:

- Adolygiad o gynnydd mewn perthynas â'n hamcanion blaenorol
- Arolygon a phrosiectau ymgysylltu wyneb yn wyneb penodol
- Ymgysylltu ac ymgynghoriad parhaus gyda phobl sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig
- Gwybodaeth ategol ychwanegol yn ymwneud â'r meysydd allweddol.

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r cyd-destun y mae ein hamcanion wedi cael eu llunio mewn perthynas ag ef. Mae'n defnyddio ystod o dystiolaeth i ategu ein casgliadau ac mae'n amlinellu canlyniadau ein gweithgareddau ymgynghori ac ymgysylltu.

2. Ein Harolwg

Lansiodd Swyddfa'r Comisiynydd arolwg ar-lein ym mis Mawrth 2020 ar ran Swyddfa'r Comisiynydd a Heddlu Gwent, gan estyn gwahoddiad i'r cyhoedd leisio barn ar yr amcanion arfaethedig ar gyfer y pedair blynedd nesaf. Cyhoeddwyd yr arolygon ar draws y cyfryngau cymdeithasol, trwy gyfrwng system negeseuon cymunedol Heddlu Gwent, ac fe'u hanfonwyd at amrywiaeth eang o grwpiau cymunedol a rhanddeiliaid allweddol ledled Gwent er mwyn casglu eu barn a'u safbwyntiau.

Gan ychwanegu at ein hamcanion presennol, dyma'r meysydd a gynigiwyd yn yr ymgynghoriad:

- Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol
- Trosedd casineb ac aflonyddu cysylltiedig ag anabledd
- Stopio a chwilio a defnyddio grym
- Y Ddalfa
- Ymgysylltu â'r gymuned

Yn ogystal, gwnaethom ofyn i bobl rannu eu barn am y meysydd canlynol i'w cynnwys:

- Ymyrraeth ac atal cynnar
- Camfanteisio'n droseddol ar blant a phobl eraill bregus
- Twyll a seiberdrosedd
- Troseddau yn erbyn pobl hŷn
- Cwynion
- Boddhad y cyhoedd

- Comisiynu
- Gwarediadau y tu allan i'r llys
- Mynediad i wasanaethau plismona
- Gweithio gyda phartneriaid
- Cydlyniant a chynhwysiant cymunedol
- Gweithredu cadarnhaol
- Cydraddoldeb rhwng y rhywiau
- Lles yn y gweithle
- Ymgynghoriad staff
- Hyfforddiant

Anfonwyd yr arolwg yn uniongyrchol at dros 60 o asiantaethau partner, grwpiau a gwasanaethau cymunedol, ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg, sefydliadau Cymraeg, ac at wirfoddolwyr Swyddfa'r Comisiynydd a Heddlu Gwent.

Derbyniwyd 771 ymateb i'r arolwg, gan gynnwys 102 o ymatebion ar bapur a dderbyniwyd trwy'r ymgysylltu uniongyrchol a ddisgrifir yn adran 3.

Gwybodaeth ddemograffig cyfranogwyr:

- **Oedran** - dan 18: 5.2%; 18-24: 1.1%; 25-40: 8.7%; 41-55: 20.4%; 56-75: 49.5%; Dros 75: 13.5%; Yn dewis peidio â dweud: 1/7%
- **Ethnigrwydd** - Gwyn Prydeinig: 92.5%; Gwyn Gwyddelig: 0.5%; Unrhyw gefndir Gwyn arall: 1.5%; Prydeinig Asiaidd: 0.5%; Pacistanaidd Asiaidd: 0.3%; Indiaidd Asiaidd: 0.8%; Du Prydeinig: 0.3%; Du Caribiaidd: 0.3%; Gwyn a Du Affricanaidd: 0.3%; Gwyn a Du Caribiaidd: 0.3%; Unrhyw gefndir cymysg arall: 0.9%; Unrhyw grŵp ethnig arall: 0.5%
- **Crefydd/Cred** - Cristnogaeth: 65.2%; Moslemiaeth: 0.6%; Hindŵiaeth: 0.6%; Iddewiaeth: 0.1%; Sikhiaeth – 0.1%; Bwdhaeth: 0.7%; Roedd yn well gan bobl beidio â dweud: 11%; Arall: 22% (Dim cred; Agnostig; Anffyddiaeth; Wica; Tyst Jehofa; Ysbrydegaeth; Sanatan Dharma; Amheuwyr; Dyneiddiaeth; Paganoaeth; Derwyddaeth; Ôl-Gristionogol; Taöydd)
- **Rhyw** – Benyw: 48.6%; Gwryw: 47.5%; Trawsryweddol: 0.3%; Anneuaidd 0.5%
- **Cyfeiriadedd rhywiol** – Heterorywiol: 86.8%; Lesbiaidd/Hoyw: 2%; Deurywiol: 2%; Arall: 2%
- Dywedodd 15.7% o'r ymatebwyr bod ganddynt amhariad corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith sylweddol a hirdymor ar eu gallu i gyflawni eu dyletswyddau o ddydd i ddydd.

3. Ymgysylltu

I gyd-fynd â'r arolwg ar-lein, trefnwyd gweithgareddau ymgysylltu wyneb yn wyneb gydag amrywiaeth o grwpiau cymunedol. Fodd bynnag, oherwydd dyfodiad COVID-19 a'r cyfyngiadau symud a osodwyd ledled y DU ar ddiwedd mis Mawrth 2020, prin oedd y cyfarfodydd a gynhaliwyd cyn i'r cyswllt wyneb yn wyneb gael ei atal. Yn dilyn

hynny, rhoddwyd ffocws ar hyrwyddo a chefnogi'r arolwg ar-lein, a chysylltwyd yn rhithiol gydag unrhyw un a oedd am drafod eu hadborth.

Cynhaliwyd cyfarfodydd ymgysylltu wyneb yn wyneb yma:

- Fforwm BAME Tîm Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig ac Ieuencid Cymru
- Rhwydwaith Gofalwyr Casnewydd
- Digwyddiad Talk Blaenau Gwent
- Digwyddiad Hawl i Holi Ieuencid Gwent

Yn ystod y digwyddiad Hawl i Holi Ieuencid, cynhaliwyd ymarfer pleidleisio trwy ddotiau er mwyn i bobl rannu eu barn ar yr amcanion arfaethedig ac unrhyw adborth arall i'w ystyried. Roedd naw ysgol a grŵp ieuencid yn bresennol a chymerodd 37 o bobl ran yn yr ymarfer ymgysylltu ar y diwrnod.

Yn lle'r gweithdy a oedd i fod i gael ei gynnal gyda staff Swyddfa'r Comisiynydd, datblygwyd arolwg pwrpasol o ganlyniad i'r ymgynghoriad cyhoeddus. Roedd hwn yn galluogi cydweithwyr i leisio barn ar yr amcanion arfaethedig ac i awgrymu unrhyw weithgareddau a gynhaliwyd yn y gwaith a fyddai'n sicrhau bod yr amcanion yn cael eu cyflawni'n llwyddiannus. Derbyniwyd 12 ymateb allan o 18 posibl.

Cynhaliodd Heddlu Gwent ymarfer ymgynghori ar-lein ar gyfer swyddogion a staff hefyd a oedd yn ymchwilio i faterion yn ymwneud â'r pedwar prif amcan, sef:

- Creu gweithlu cynrychioliadol a hybu cyfle cyfartal
- Mynediad, ymgysylltiad a chydlyniant
- Cefnogi pobl fregus
- Meithrin cydberthnasau cadarnhaol gyda chymunedau.

Derbyniwyd 220 o ymatebion, gyda rhyw 100 o sylwadau'n ymateb i'r cwestiwn "*Beth ydych chi'n credu y gallai Heddlu Gwent ei wneud i hybu cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn well?*" Mae adroddiad cryno mewnol ar wahân wedi cael ei rannu i alluogi Prif Swyddogion i ystyried yr adborth a nodi gweithgarwch priodol o fewn cynlluniau cyflawni'r Llu.

Cafodd adborth o waith ymgysylltu parhaus gyda chymunedau yn ystod y flwyddyn ei gynnwys hefyd, gan gynnwys arsylwadau a chanfyddiadau gan y canlynol:

- Cyfarfodydd rheolaidd gyda'r Grŵp Cynghori Annibynnol (grŵp o aelodau o'r gymuned sy'n rhoi cyngor i Heddlu Gwent)
- Gwaith ymgysylltu â'r Rhwydweithiau Cymorth Staff (Rhwydwaith LGBTQ Heddlu Gwent, Cymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Heddlu Gwent, Rhwydwaith Merched Mewn Plismona Gwent, Rhwydwaith Anabledd a Gofalwyr, Rhwydwaith Gweithio'n Hyblyg Heddlu Gwent, Rhwydwaith Siaradwyr a Dysgwyr Cymraeg, y Rhwydwaith Cristnogol a'r Rhwydwaith Iechyd Meddwl)
- Cyfarfodydd rheolaidd gyda'r Rhwydwaith Rhyng Ffydd
- Presenoldeb mewn digwyddiadau yn ystod y flwyddyn, megis Pride Caerdydd, Diwrnod Gwybodaeth 50+ Casnewydd, Hawl i Holi Ieuencid
- Adborth o'r Gynhadledd LGBTQ genedlaethol a Chynhadledd y Menywod, a gawsant eu cynnal gan Heddlu Gwent

- Arolygon a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn (er enghraifft, ein harolwg boddhad dioddefwyr a'r arolwg Eich Llais a gynhelir ddwywaith y flwyddyn i gasglu blaenoriaethau'r gymuned)
- Ymgysylltu'n ymwneud â meysydd gwaith penodol (er enghraifft, stopio a chwilio) gyda chymunedau sy'n cael eu heffeithio'n benodol
- Cyfarfodydd rheolaidd gyda grwpiau yn y gymuned sy'n ymgysylltu â phobl sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig.

4. Ymatebion ac Adborth

Mae gwybodaeth ychwanegol a gasglwyd i gefnogi datblygiad yr ymgynghoriad a'r broses ymgysylltu wedi ei chynnwys yn Atodiad 1.

Amcan Cydraddoldeb Un: Cefnogi Pobl Fregus

Canfod, cefnogi ac amddiffyn pobl sydd mewn perygl o droseddau sy'n cael yr effaith fwyaf ar bobl fregus

Themâu:

- Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol
- Trosedd casineb ac aflonyddu cysylltiedig ag anabledd
- Ymyrraeth ac atal cynnar
- Camfanteisio'n droseddol ar blant a phobl eraill bregus
- Twyll a seiberdrosedd
- Troseddau yn erbyn pobl hŷn

Yr hyn a ddywedodd ymatebwyr wrthym

Roedd 96% o ymatebwyr ar-lein ac mewn grŵp yn cytuno ag Amcan Cydraddoldeb Un. Dyma'r prif themâu a ddaeth yn amlwg yn ein gwaith ymgysylltu ac yn yr ymatebion i'r arolwg:

- Mwy o gydnabyddiaeth a chymorth i ddioddefwyr gwrywaidd cam-drin domestig
- Darparu gwybodaeth am y cymorth a'r gefnogaeth sydd ar gael a sut i gael mynediad iddynt
- Ymgysylltu â grwpiau ffydd, elusennau a grwpiau cymunedol sydd eisoes yn cynnig cymorth a chefnogaeth yn y meysydd hyn
- Darparu ôl-ofal i ddioddefwyr a goroeswyr i sicrhau eu bod yn gallu cael mynediad i gymorth emosiynol priodol
- Mwy o waith ymyrryd ac atal cynnar gyda sefydliadau addysgol

Fel oedolyn awtistig rwy'n gobeithio bod hyfforddiant awtistiaeth digonol a chyfredol yn cael ei roi i holl gyflogeion yr heddlu. Bydd hyn yn eu helpu nhw ym mhob un o'r themâu ac nid o ran

Mae angen i bob person bregus wybod y byddwn yn rhoi pob cymorth iddynt, y byddant yn cael eu credu a'u hamddiffyn.

O ran cam-drin domestig yn benodol, mae angen cefnogaeth ar gyflawnwyr (gwrywaidd a benywaidd) er mwyn iddynt fynd i'r afael â'u hymddygiad.

Camau gweithredu ar gyfer ein Cynllun Cydraddoldeb

- Gwella adnabyddiaeth o nodweddion gwarchoddedig sy'n cael eu tangynrychioli'n anghymesur mewn data cam-drin domestig a thrais rhywiol
- Cydweithio i ddarparu gwasanaethau priodol i gyflawnwyr cam-drin domestig
- Gwella gwybodaeth ac ymwybyddiaeth mewn cymunedau o'r troseddau sy'n achosi'r niwed mwyaf i bobl fregus.
- Cydweithio i ddarparu ymyraethau cynaliadwy a chymorth i bobl sy'n ymwneud â cham-fanteisio troseddol neu sydd mewn perygl o ymwneud â cham-fanteisio troseddol.
- Canfod a sefydlu darlun cywir o seiberdrosedd a'r ymateb a ddarperir i ddiodefwr
- Gweithio i sicrhau ymateb effeithiol i droseddau sy'n effeithio ar bobl hŷn yn benodol

Amcan Cydraddoldeb Dau: Cyfreithlondeb a Thegwch

Sicrhau bod gweithgareddau plismona'n cael eu cynnal yn gyfreithlon a chymesur, gan feithrin cydberthnasau cadarnhaol rhwng cymunedau a phlismona

Themâu:

- Stopio a Chwilio
- Y Ddalfa
- Cwynion
- Boddhad y cyhoedd
- Comisiynu (Swyddfa'r Comisiynydd yn unig)
- Defnyddio grym
- Gwarediadau y tu allan i'r llys

Yr hyn a ddywedodd ymatebwyr wrthym

Roedd 92% o ymatebwyr ar-lein ac mewn grŵp yn cytuno ag Amcan Cydraddoldeb Dau. Dyma'r prif themâu a ddaeth yn amlwg yn ein gwaith ymgysylltu ac yn yr ymatebion i'r arolwg:

- Rhannu gwybodaeth gyfredol gyda chymunedau ynghylch sut mae polisïau'n gweithio
- Sicrhau defnydd priodol o warediadau y tu allan i'r llys
- Mwy o ymgysylltu â chymunedau i wella dealltwriaeth o'r ffordd mae'r heddlu'n defnyddio pwerau
- Mwy o waith comisiynu gwasanaethau atal
- Canfod a rhoi sylw i ragfarn ymwybodol a diarwybod ymysg y gweithlu

Gall stopio a chwilio fod yn gythryblus iawn ymysg pobl awtistig. Mae'r un peth yn wir am ddefnyddio grym. Nid yw pobl yn ymateb yn gythrybus ar bwrpas ac ni ellir rheoli'r ymateb hwn. Rhaid i'r heddlu gofio hynny wrth

Dros y blynyddoedd mae rhai o'r uchod wedi cael eu camddefnyddio oherwydd hiliaeth sefydliadol. Mae angen defnyddio'r pwyntiau hyn yn deg ar draws pob

Mae'r heddlu mor ddieithr i gymunedau ac mae rhwystr anferth ar y cyfan rhwng yr heddlu a'r bobl a allai roi cefnogaeth ragweithiol iddynt.

Camau gweithredu ar gyfer ein Cynllun Cydraddoldeb

- Gwella cyfleoedd i gymunedau leisio eu barn ar y defnydd o bwerau'r heddlu
- Gwella gwybodaeth ac ymwybyddiaeth o ddealltwriaeth cymunedau o stopio a chwilio a defnyddio grym, a'u hawliau
- Gwella profiad pobl ag anghenion ychwanegol pan fyddant yn y ddalfa
- Cydweithio i sicrhau bod gwarediadau y tu allan i'r llys yn cael eu defnyddio'n briodol ac yn gymesur
- Darparu gwybodaeth i gymunedau ynghylch pryd a sut i wneud cwynion

Amcan Cydraddoldeb Tri: Mynediad, Ymgysylltiad a Chydlyniant

Sicrhau bod ein gwasanaethau'n ymateb i farn, profiadau ac anghenion pobl sy'n arddel nodweddion gwarchodedig, a bod y gwaith rydym yn ei wneud yn hybu cynhwysiant a chydlyniant.

Themâu:

- Mynediad i wasanaethau plismona
- Gweithio gyda phartneriaid
- Cydlyniant a chynhwysiant cymunedol
- Ymgysylltu â'r gymuned

Yr hyn a ddywedodd ymatebwyr wrthym

Roedd 90% o ymatebwyr ar-lein ac mewn grŵp yn cytuno ag Amcan Cydraddoldeb Tri. Dyma'r prif themâu a ddaeth yn amlwg yn ein gwaith ymgysylltu ac yn yr ymatebion i'r arolwg:

- Mwy o bresenoldeb heddlu amlwg ym mhob ardal
- Gwaith partner effeithiol ac atebol
- Mwy o ymgysylltu â chynghorau lleol mewn ardaloedd gwledig
- Defnyddio dulliau a fformatau gwahanol i gysylltu a rhannu gwybodaeth gyda phobl
- Defnyddio dulliau ac agweddau ymgysylltu priodol gyda phlant a phobl ifanc

Mae'n rhaid i blismona amlwg fod yn flaenoriaeth Dylid cofio mai prif bwrpas plismona yw atal a chanfod trosedd

Yn fy marn i, dylid ymgysylltu â'r gymuned cymaint â phosibl

Mae gwell partneriaethau a rhannu gwybodaeth yn creu gwell ymddiriedaeth ar lefel leol

Camau gweithredu ar gyfer ein Cynllun Cydraddoldeb

- Sicrhau bod gwasanaethau plismona, gan gynnwys adeiladau, yn hygyrch i bobl sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig
- Ymateb yn effeithiol i densiynau cymunedol pan fyddant yn digwydd
- Ymgysylltu'n gynhwysol fel bod pawb sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig yn gallu cyfrannu
- Gweithio i hybu ac ymgorffori'r egwyddor bod plant a phobl ifanc yn cael eu trin yn unol â'u hoedran
- Sicrhau bod gwasanaethau a gomisiynir yn ystyried anghenion pobl gyda nodweddion gwarchoddedig
- Gwella ymwybyddiaeth o wasanaethau Cyswllt Gwent ym mhob cymuned, gan ganolbwyntio ar lefydd lle ceir tystiolaeth o fynediad anghymesur i wasanaethau i ddioddefwyr

Amcan Cydraddoldeb Pedwar: Creu Gweithlu Cynrychioliadol a Hyrwyddo Tegwch

Gweithio i ddatblygu gweithlu cynrychioliadol a sicrhau bod pawb sy'n gweithio i Heddlu Gwent a Swyddfa'r Comisiynydd yn cael eu trin yn deg a heb wahaniaethu.

Themâu:

- Gweithredu cadarnhaol
- Cydraddoldeb rhwng y rhywiau
- Lles yn y gweithle
- Ymgynghoriad staff
- Hyfforddiant

Yr hyn a ddywedodd ymatebwyr wrthym

Roedd 91% o ymatebwyr ar-lein ac mewn grŵp yn cytuno ag Amcan Cydraddoldeb Pedwar. Dyma'r prif themâu a ddaeth yn amlwg yn ein gwaith ymgysylltu ac yn yr ymatebion i'r arolwg:

- Defnyddio gweithredu cadarnhaol yn effeithiol
- Prosesau recriwtio a dewis teg a thryloyw
- Mwy o ymwybyddiaeth a sensitifrwydd diwylliannol ar draws y sefydliad
- Mwy o ymwybyddiaeth o lwyddiant yn y gymuned trwy rannu straeon cadarnhaol
- Cynnwys cymunedau mewn rhaglenni hyfforddiant

Mae'n hanfodol bod pawb yn cael eu trin yn deg a chywir, ni waeth beth yw eu rhyw, hil, crefydd ac atiNi ddylai unrhyw wahaniaethu fodoli yn y gymdeithas

O ran hyfforddiant, hoffwn i'r heddlu weithio'n agos gyda phartneriaid sydd â chyswllt uniongyrchol â chymunedau. Maen nhw'n dueddol o wybod beth yw problemau cymunedau

Mae gweithredu cadarnhaol yn iawn, cyn belled nad yw'n troi yn 'wahaniaethu cadarnhaol'

Camau gweithredu ar gyfer ein Cynllun Cydraddoldeb

- Gwella gwybodaeth a dealltwriaeth o weithredu cadarnhaol ymysg y gymuned ehangach
- Sicrhau bod uwch-reolwyr a phobl sy'n ymwneud â phrosesau recriwtio yn deall ac yn cymryd camau i unioni rhagfarn ddiarwybod sefydliadol neu bersonol

- Gweithio i roi sylw i fylchau mewn cynrychiolaeth o ran pob un o'r nodweddion gwarchoddedig
- Craffu ar gwynion yn ymwneud â bwlio, aflonyddu a/neu gamymddwyn rhywiol yn y gweithle
- Gweithio i ddeall yn well pam mae pobl o grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli'n gadael y sefydliad
- Darparu hyfforddiant effeithiol i'r gweithlu ar faterion cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

Awgrymodd ymatebwyr y dylid ystyried cynnwys y meysydd canlynol yn benodol hefyd:

- Caethwasiaeth Fodern a Masnachu Pobl
- Tryloywder
- Plant a phobl ifanc
- Mynediad i wasanaethau i ddioddefwyr
- Amddifadedd economaidd

Casgliad

Mae ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar y Cyd yn rhoi cyfle pwysig i ni gadarnhau a datblygu cyflawniadau a wnaed eisoes mewn perthynas â'n Hamcanion Cydraddoldeb blaenorol, yn ogystal ag ymgorffori meysydd gwaith sy'n dod i'r amlwg rydym yn gwybod y byddant yn heriol dros y blynyddoedd nesaf. Mae'r ddogfen hon yn dangos y sail resymegol dros yr amcanion yn ein Cynllun newydd, ond rydym yn ymwybodol bod yr hinsawdd a'r cyd-destun rydym yn gweithredu ynddynt yn newid yn gyson. Mae digwyddiadau rhyngwladol wedi tynnu sylw at y berthynas rhwng plismona a hil, ac mae'r mudiad Mae Bywydau Du o Bwys wedi atgyfnerthu'r angen i wasanaethau wneud mwy i fynd i'r afael â phroblemau anghyfartaledd. Mae effaith anghymesur Coronafeirws ar ein cymunedau lleiafrifoedd ethnig wedi amlygu problemau eraill o "hiliaeth wedi'i sefydlu" a'r angen i weithredu yn awr i gael gwared ar wahaniaethu sefydliadol.

Mae sicrhau bod ein Hamcanion Cydraddoldeb yn pennu'r blaenoriaethau cywir yn bwysicach nac erioed. Byddant yn helpu i ysgogi newid sefydliadol angenrheidiol ac yn cyfrannu at gydlyniant cymunedol gwell trwy ganfod a mynd i'r afael ag anghydraddoldeb ac anghyfartaledd yn y maes plismona a'r broses cyfiawnder troseddol ehangach. Yn ogystal, byddant yn creu mwy o ymdeimlad o gynhwysiant ar draws y gwasanaeth heddlu.

Er mwyn sicrhau bod ein hymrwymiad i fynd i'r afael ag anghyfartaledd, cynyddu ein hamrywiaeth a meithrin diwylliant o gynhwysiant yn cael eu mesur a'u rhoi ar brawf, byddwn yn creu a chynnal Cynlluniau Cyflawni Cydraddoldeb unigol ar gyfer Swyddfa'r Comisiynydd a Heddlu Gwent. Bydd y Cynlluniau Gweithredu'n dwyn ynghyd y gweithgareddau sy'n cefnogi a datblygu ein gwaith i fod y gorau y gallwn a sicrhau ein bod yn darparu'r gwasanaeth cywir ar gyfer ein cymunedau yng Ngwent.

Byddwn yn parhau i ymgynghori ac ymgysylltu â'n cymunedau a staff i sicrhau bod ein Hamcanion Cydraddoldeb a'n Cynlluniau Cyflawni'n berthnasol bob amser, gan sicrhau bod ein gweithgareddau'n parhau i gael eu llywio gan farn pob un o'n prif randdeiliaid.

Byddwn yn adolygu ein Hamcanion Cydraddoldeb bob blwyddyn fel rhan o'n proses adrodd blynyddol, gan sicrhau bod ein gweithgareddau'n darparu canlyniadau cadarnhaol i'r bobl sy'n cael eu heffeithio ganddynt.